

30ain o Hydref 2021

Annwyl Riant / Warchodwr,

Wrth i ni baratoi i groesawu'ch plant yn ôl ar gyfer yr hanner tymor newydd, roeddwn i eisiau eich diweddarau ar ein ffordd bresennol o weithio a rhoi gwybod i chi am rai dyddiadau sydd i ddod.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog ysgolion i ddychwelyd i arfer mor agos â phosibl ers mis Medi, ac rwy'n falch o ddweud bod yr ysgol yn sicr yn teimlo llawer mwy 'normal' nag y gwnaeth y llynedd. Er enghraifft, yn ystod yr hanner tymor diwethaf,

- mae'r amserlen wedi dychwelyd i wersi awr o hyd,
- nid ydym bellach yn cymryd amser cinio ac egwyl fel grwpiau blwyddyn arwahan,
- rydym wedi cychwyn rhai gweithgareddau allgyrsiol eto, gan gynnwys clybiau chwaraeon amser cinio,
- mae gwaith ymarferol wedi ail ddechrau yn gwyddoniaeth a thechnoleg a
- gallwn redeg rhai teithiau ysgol eto.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i gadw pawb mor ddiogel â phosibl gan

- wirio am symptomau Covid-19 bob dydd,
- gadw system unffordd mewn rhai rhannau o'r ysgol,
- wisgo masgiau mewn mannau cymunedol,
- drefnu byrddau yn gyffredinol i wynebu ymlaen mewn ystafelloedd dosbarth a
- lanhau arwynebau mewn ystafelloedd dosbarth, coridorau a'r ffreutur yn rheolaidd.

Rydym yn arbennig o ddiolchgar i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Wrth i ni gychwyn yr hanner tymor nesaf, mae dal yn bwysig eich bod chi:

- **Yn edrych allan am symptomau newydd.**
Os yw'ch plentyn yn dechrau teimlo'n sâl, ta waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau, dylai eich plentyn aros i ffwrdd o'r ysgol a chael prawf PCR. Gallwch archebu prawf PCR ar-lein trwy wefan y GIG yn <http://www.gov.uk/get-coronavirus-test> neu trwy ffonio 119.
- **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ysgol.**
Rhowch wybod i'r ysgol os yw'ch plentyn yn sâl â symptomau COVID-19, argymhellir eich bod yn trefnu prawf ac yn ein hysbysu o'r canlyniadau ar ôl eu derbyn.
- **Profion Llif Ochrol**
Rydym yn cyngori bod eich plentyn yn cymeryd profion llif ochrol yn rheolaidd (LFT's) ar nos Sul a nos Fercher, ac yn cofnodi'r canlyniadau ar-lein [Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/report-a-covid-19-rapid-lateral-flow-test-result). Cysylltwch â'r ysgol os oes angen mwy o brofion arnoch, neu gallwch archebu cyflenwad yn rhad ac am ddim i'ch cartref o <https://test-for-coronavirus.service.gov.uk/order-lateral-flow-kits/condition>
- **Parhau i olchi dwylo'n rheolaidd.**
Mae hyn yn dal i fod yn ffordd bwysig o gyfyngu lledaeniad llawer o heintiau, gan gynnwys COVID-19.
- **Parhewch i leihau eich cysylltiadau ehangach a cadw'ch hun a'ch teuluoedd yn ddiogel.**

Bydd llawer ohonoch yn gwybod ein bod wedi cymryd y cam ychwanegol o ofyn i staff a myfyrwyr aros gartref os yw aelod o'u cartref wedi profi'n bositif neu â symptomau - rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod y tebygolrwydd o gyswllt gyda person sydd wedi profi yn bositif yn y cartref yn uwch nag ar gyfer cysylltiadau eraill, ac felly rydym yn teimlo bod hwn yn gais synhwyrol o dan yr amgylchiadau. Lle bo modd, rydym wedi parhau i osod gwaith i fyfyrwyr yn y sefyllfa yma, a gobeithiwn eich bod wedi canfod bod hyn yn ddefnyddiol.

Tu hwnt i'r pandemig byd-eang, mae yna lawer o bethau i edrych ymlaen atynt dros yr wythnosau nesaf, yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig ac ar ol hynny. Dyma grynoded o ddigwyddiadau ar gyfer eich dyddiadur:

- Dydd Mawrth 2il o Dachwedd: Noson rhieni Blwyddyn 10 trwy 'SchoolCloud'
- Dydd Mawrth 30ain o Dachwedd: Noson rhieni Blwyddyn 9 trwy 'SchoolCloud'
- Dydd Llun 29ain o Dachwedd - Dydd Gwener 3ydd o Ragfyr: Ffug arholiadau Blwyddyn 11 a'r Chweched Dosbarth.
- Dydd Mercher 22ain o Ragfyr: Diwrnod olaf tymor y Nadolig
- Dydd Gwener 7fed o Ionawr: Diwrnod hyfforddi staff (yr ysgol ar gau i fyfyrwyr)
- Dydd Llun 10fed o Ionawr: Myfyrwyr yn dychwelyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn.

Yn ogystal, rydym yn gobeithio cynnal nifer o ddigwyddiadau'r Nadolig. Byddwn yn eich diweddarau am y trefniadau yma trwy ein gwefan a thrwy e-bost pan fyddwn yn hyderus y byddant yn bosibl o dan yr amgylchiadau presennol.

Yn olaf, edrychwch allan am gyfleoedd sydd yn dod i fyny i ymuno â'n corff Llywodraethu. Byddwn yn ysgrifennu atoch arwahan gyda manylion am sut a phryd i enwebu rhieni ar gyfer y rôl hon a sut i bleidleisio dros unrhyw ddarpar Lywodraethwyr dros yr wythnosau nesaf, ond yn y cyfamser, edrychwch ar y dudalen hon i gael mwy o fanylion am y rôl: <http://governors.cymru/dod-llywodraethwr/>

Fel arfer, edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'ch plant dros yr wythnosau nesaf, ond yn y cyfamser, peidiwch ag oedi i gysylltu os gallwn eich helpu mewn unrhyw ffordd.

Cofion cynnes,

Yr eiddoch yn gywir,

Ian Gerrard
Pennaeth